# Gair i Gall o ran Iaith

## Termau Niwro-Gadarnhaol

| Term | Eglurhad |
|---|---|
| **“Niwrowahanol”** | Term ymbarél sensitif ar gyfer unigolion ag ymennydd sy’n gweithio’n wahanol i’r hyn sy’n cael ei ystyried yn ‘nodweddiadol’. |
| **“Niwronodweddiadol”** | Disgrifiad niwtral ar gyfer unigolion ag ymenyddiau sy’n elwa ac yn cyd-fynd â’r ffordd y mae’r gymdeithas y maent yn byw ynddi yn gweithredu. |
| **“Gofynion Mynediad”** | Term sy’n canolbwyntio ar gynhwysiant ac yn pwysleisio fod gan unigolion yr hawl i gael addasiadau penodol, yn hytrach na chael eu hystyried fel unigolion ag anghenion. |
| **“Addasiadau”** | Term niwtral a dderbynnir yn eang i ddisgrifio newidiadau i gefnogi llwyddiant. |
| **“Gwahaniaeth / Gwahaniaethau”** | Geiriad mwy cyfannol sydd hefyd yn ystyried cryfderau, yn hytrach na therminoleg feddygol fel ‘anhwylder’ neu ‘afiechyd’. |
| **“Nodweddion”** | Term y model cymdeithasol yn lle ‘symptomau’, sy’n rhoi’r argraff o afiechyd. |



# ⚠ Angen eu Gwella / Dibynnu ar Gyd-destun

| Term | Eglurhad |
|---|---|
| **"Pŵer arbennig"** | Gall fod yn rymus iawn, ond gall hefyd fod yn ddiystyriol o anawsterau go iawn. Yn aml gall fod yn docynistaidd os nad yw'n gyd-destunol. |
| **"Dawnus"** | Gall greu pwysau a chamgyfleu realiti - yn dibynnu ar gyd-destun. |
| **"Gweithredu ar Lefel Uchel / Lefel Isel"** | Mae'r termau hyn yn cysgodi ac yn creu cymhariaeth ddiangen. Mae 'Gweithredu ar Lefel Uchel' yn diystyru anawsterau'r rhai hynny sy'n ymddangos yn annibynnol ac yn iach. Gall lefelau gweithredu hefyd newid o ddydd i ddydd. |
| **"Ar y Sbectrwm"** | Term cyffredin ond un sydd wedi'i orsymleiddio ac sy'n anwybyddu sut y gall pobl ddewis adnabod eu hunain. |
| **"Yn dioddef o [cyflwr]"** | Mae hyn yn awgrymu bod yr unigolyn yn ddioddefwr ac mae'n diystyru gallu. |
| **"Triniaeth"** | Mae'r gair hwn yn awgrymu bod modd gwella ond nid yw hyn yn bosibl - yn hytrach, cynigir gwasanaethau cefnogi, therapïau ystyriol, strategaethau ac addasiadau addysgol ac yn y gweithle. |
| **"Symptomau"** | Terminoleg feddygol sy'n patholegu profiadau pobl niwrowahanol. |

# ❌ Niweidiol / Wedi Dyddio

| Term | Eglurhad |
|---|---|
| **“Normal”** | Mae’n awgrymu fod pobl niwrowahanol yn anghyffredin neu’n israddol. |
| **“Gwallgof” / “Mental”** | Mae’n stigmateiddio ac yn bychanu iechyd meddwl a niwrowahaniaeth. |
| **“Diffyg/Anhwylder”** | Mae’n awgrymu bod rhywbeth o’i le ac angen ei drwsio. |
| **“Ymddygiad Problemus/Heriol”** | Mae’n rhoi bai ar yr unigolyn yn hytrach na’r cyd-destun neu anghenion heb eu diwallu. |
| **“Mae pawb yn niwrowahanol i raddau!”** | Er ein bod i gyd efallai yn meddu ar nodweddion yn gysylltiedig â’r cyflyrau hyn, mae niwrowahaniaethau yn ymwneud â gwahaniaethau penodol sydd yn aml yn anablu, ac mae’r frawddeg hon yn tanseilio’r profiadau hyn. Fe allai hefyd berswadio rhywun i beidio â cheisio cefnogaeth. |
| **“Anghenion Arbennig”** | Amwys ac yn trin yr unigolyn fel plentyn bach; mae’n awgrymu bod anghenion yr unigolyn yn anarferol ac yn feichus. |

